# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd W J Kendall**

**Ward: Canol Dwyrain Bracla**

**Plaid: Llafur**

Mae’r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mai 2024. Fe’i darperir er gwybodaeth i’r holl etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

**Y Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Canol Dwyrain Bracla ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 18 o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn am fy help i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a’m ward.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy ngweithgareddau drwy ddilyn y ddolen hon:

Y Cynghorydd William Kendall

**Gweithgareddau Etholaethol**

Rwyf wedi mynychu sawl cyfarfod safle ac wedi bod yn weithgar wrth hyrwyddo'r cyfleusterau hamdden yn fy ward.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rydw i wedi bod yn weithgar yn hyrwyddo amgylchedd mwy gwyrdd a mwy diogel. I gefnogi sefydliadau lleol, rwyf wedi bod mewn cysylltiad â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) lleol ac wedi bwrw golwg ar faterion sy'n peri pryder yn rheolaidd

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

| |
|---|
| Rwyf wedi bod yn weithgar yn fy rôl fel Maer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2023 i 2024. |
| **Y Cynghorydd W J Kendall:** **Dyddiad: 26 Mehefin 2024** |